# Statud y Gwŷr wrth Gerdd o waith Gruffudd ap Cynan Twysawc Cymru, yr hwn a ddechreuodd Lywodraethu Gwynedd ynghylch y flwyddyn 1079 ac a fu farw yn y flwyddyn 1136 yr hon statud a Gadarnhawyd mewn Eisteddfod gan Amryw o Athrawon celfyddyd o Gymru a Gwyddelod hefyd y rhai a ddygasai Gruffudd ap Cynan gydag efo ór Iwerddon —

Copiwyd allan o hen lyfr ysgrifen, gan Lewis Morys, 1727.

## Llyma'r sawl sydd rydd iddynt Glera.

1 Gwr wrthgerdd anafus, megis gwr dall.
2 Disgybl ysbâs.
3 Disgybl disgyblaidd
4 Disgybl penceirddiaidd.
5 Pencerdd.

**D**isgybl ysbâs Cerdd dafawd a ddylai wybod y sillafau, a Phum mesur ar Englyn; nid amgen Unodl union. Unodl Crwcca: Unodl Cyrch. Proest Cadwynog: Proest Cyfnewidiog. A Mesur ar Gowydd dau air hirion, ai Canu yn Awenyddyar ymarn pencerdd a ddwedo ar ei Gydwybod a ellir Prydydd o hono—

**D**isgybl disgyblaidd a ddylai wybod dauddeg o Fesurau, sef Pum Mesur Englyn: Pedwar Mesur Cowydd. Ag Owdl toddiad. Gwawdodyn byr, a Gwawdodyn Hir: a Gochel y Pymtheg bai Cyffredin a dangos ói waith ei hun bob un ór deuddeg mesur yn ddisgyblaidd.

**D**isgybl Penceirddaidd a ddylai wybod i holl sillafau a rheol yr ymadroddion yn ol y Gramadeg, a dosparth y Cynghaneddion a gochel yr holl feiau; Canu'n gydsain, neu 'n gyfiwchgerdd ar unarhugain ór Mesurau; [Er na Chano Hyr ... [nid yw hyn gan J.D. Rhys yn ei Ramadeg
na Thawddgrych Cadwynog neu ddigwydd un ór Mesurau heb wybod mae ef yn Gydymaith i Bencerdd ...

**P**encerdd a ddylai wybod y cwbl a chanu'n gyfochr yn